Crynodeb sector

# Dysgu oedolion yn y gymuned

2022-2023



Estyn

Crynodeb sector

# Dysgu oedolion yn y gymuned

2022-2023

## Addysgu a dysgu

### Beth sy'n mynd yn dda

- Mae partneriaethau'n parhau i gynnig sesiynau dysgu wyneb-yn-wyneb ac ar-lein yn unol â dymuniadau dysgwyr.
- At ei gilydd, mae addysgu ar draws meysydd rhaglenni yn effeithiol ac mae tiwtoriaid yn cefnogi eu dysgwyr yn dda.
- Mae nifer y dysgwyr Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill yn cynyddu a, lle y bo'n berthnasol, mae darpariaeth yn llwyddiannus o ran helpu dysgwyr i addasu i'w bywydau newydd yng Nghymru.
- Lle mae partneriaethau'n cynnig cyrsiau diddordeb personol, mae'r rhain o fudd i les dysgwyr, yn ogystal â'u cynorthwyo i gaffael medrau a gwybodaeth.

### Beth sydd angen ei wella

- Nid yw partneriaethau'n olrhain a monitro cynnydd disgyblion o fewn, ar draws ac wrth adael eu darpariaeth, yn ddigon da.
- Nid yw partneriaethau'n darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg eu hiaith gymryd rhan mewn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Crynodeb sector

# Dysgu oedolion yn y gymuned

2022-2023

## Gofal, cymorth a lles

### Beth sy'n mynd yn dda

- Mae darparwyr yn cynnig cymorth gwerthfawr wedi'i bersonoli i ddysgwyr.
- Mae darparwyr yn canolbwyntio ar hyrwyddo dewisiadau iach i ddysgwyr o ran eu ffordd o fyw, yn ogystal â helpu dysgwyr i ddeall pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Mae darparwyr yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr leisio eu barn a dylanwadu ar ddarpariaeth.
- Mae bron pob dysgwr yn cyfranogi'n frwdfrydig a dywed llawer ohonynt fod ymgysylltu â'u dysgu yn fuddiol i'w lles.

### Beth sydd angen ei wella

- Heb wefannau trosfwaol ar gyfer partneriaethau, yn aml, nid yw darpar ddysgwyr yn gallu gweld arlwy gyfan y bartneriaeth yn hawdd. Mae hyn yn golygu na allant ddod o hyd i'r cyrsiau sy'n gweddu orau i'w hanghenion neu eu dewis iaith bob tro.

Crynodeb sector

# Dysgu oedolion yn y gymuned

2022-2023

## Arwain a gwella

### Beth sy'n mynd yn dda

- Mae partneriaethau'n deall anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau'n dda.
- Yn yr enghreifftiau gorau, mae gan bartneriaethau weledigaeth glir, gytûn sy'n cael ei mynegi'n dda; mae'r partneriaid yn alinio eu gwaith a'u hadnoddau i gefnogi hyn yn effeithiol.
- Mae arweinwyr a rheolwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau y caiff gwersi eu cynnal mewn ystod eang o leoliadau sy'n hawdd eu cyrraedd ac sydd wedi'u lleoli'n gyfleus ar draws ardaloedd daearyddol gwahanol.

### Beth sydd angen ei wella

- Lle nad yw gweithio mewn partneriaeth yn gryf, mae angen gwella trefniadau arweinwyr ar gyfer hunanwerthuso a sicrhau ansawdd darpariaeth.

Crynodeb sector

# Dysgu oedolion yn y gymuned

2022-2023

## Trosolwg o argymhellion o arolygiadau

**3**

**Arolygwyd tair partneriaeth yn ystod 2022-2023**

**3**

Cafodd bob un o'r tair partneriaeth argymhellion i wella olrhain a monitro cynnydd dysgwyr.

**3**

Cafodd bob un o'r tair partneriaeth argymhelliad i ymwreiddio neu gynyddu'r arlwy cyfrwng Cymraeg o fewn eu darpariaeth.

Roedd argymhellion eraill yn canolbwyntio ar yr angen i ddarparu cyfeiriad strategol ar lefel y bartneriaeth, gwella marchnata arlwy'r ddarpariaeth, gwella i ba raddau y mae dysgwyr yn cyfrannu at hunanwerthuso, a rhoi arsylwi a safoni traws-bartneriaeth ar waith i adeiladu cyd-ddealltwriaeth o ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Crynodeb sector

# Dysgu oedolion yn y gymuned

2022-2023

## Cwestiynau myfyriol

Cwestiynau i helpu darparwyr i **ddefnyddio gwybodaeth am gynnydd a dilyniant dysgwyr i wella eu darpariaeth a'u harfer**:

- Pa mor effeithiol y mae'r bartneriaeth yn olrhain a monitro cynnydd dysgwyr yn y ddarpariaeth ac ar ei thraws?
- Pa mor dda y mae partneriaid yn y bartneriaeth yn rhannu gwybodaeth briodol am ddilyniant dysgwyr wrth iddynt symud rhwng partneriaid?
- Pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cipio gwybodaeth am gyrchfannau dysgwyr ar ôl iddynt adael y ddarpariaeth?
- Pa mor effeithiol y mae gwybodaeth am gynnydd a chyrchfannau dysgwyr, ynghyd â mewnwelediad i effaith darpariaeth, yn llywio prosesau hunanwerthuso ar lefel darparwyr a'r bartneriaeth?

## Arfer effeithiol

I ddarllen am ddarparwyr unigol sy'n gweithio'n effeithiol mewn agweddau penodol o'u gwaith, ewch i'n tudalen crynodeb o arfer effeithiol ar gyfer 2022-2023